



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa Camau Bach (Aberystwyth)

**Canolfan Integredig a Hyfforddiant
Boulevard De St Brieuc
Aberystwyth
SY23 1PD**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2017

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Camau Bach wedi'i chofrestru ers 2005 ac mae'n darparu gofal dydd llawn trwy gyfrwng y Gymraeg i 75 o blant. Lleolir y feithrinfa mewn ystafelloedd a godwyd yn bwrpasol yn adeilad y Mudiad Meithrin yn Aberystwyth. Ariennir y feithrinfa i addysgu plant tair blwydd oed ac fe'i harolygir gan Estyn. Y person â gofal yn ystod yr arolygiad oedd Debbie Benjamin ac mae hi'n cyflenwi ar gyfer Sioned Davies, sydd ar famolaeth ar hyn o bryd.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae plant yn Camau Bach yn hapus, yn hyderus ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn derbyn gofal gan staff cymwys iawn sy'n sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach ar y cyfan. Mae staff yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan arweinwyr a rheolwyr. Mae arweinwyr wedi ad-drefnu grwpiau i sicrhau bod yr ystafelloedd niferus sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl.

2. Gwelliannau

Mae amseroedd byrbryd a chinio wedi cael eu hailstrwythuro, sy'n sicrhau bod grwpiau llai o blant yn bwyta gyda'i gilydd mewn nifer o ystafelloedd, gan arwain at amgylchedd mwy hamddenol a digynnwrf. Mae'r man awyr agored wedi cael ei ddatblygu i greu mannau ar gyfer chwarae dychmygus sy'n cynnwys cegin fwd, cuddfannau pren helyg a gorsaf ddŵr. Mae staff wedi mynychu sesiynau hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn nifer o bynciau: datblygiad lleferydd ac iaith, syniadau chwarae anniben, a datblygiad corfforol. Mae cylch Ti a Fi wedi cael ei sefydlu gan y staff rheoli, sy'n boblogaidd gyda rhieni a'u plant ifanc.

3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell y canlynol:

- Dylai'r holl blant olchi eu dwylo cyn amser byrbryd neu ginio.
- Dylai staff lanhau matiau newid rhwng newid cewynnau.
- Dylai staff olchi eu dwylo ar ôl newid pob cewyn unigol a chyn dychwelyd y plant i'w hystafelloedd.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae plant ym meithrinfa Camau Bach yn hapus ac yn gwneud dewisiadau hyderus ynglŷn â'u chwarae ac yn cyfrannu at syniadau. Maent yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau, yn dangos mwynhad a chyffro, ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn y maent yn ei wneud. Mae plant yn datblygu'n dda ac yn mwynhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a chwarae annibynnol.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae plant yn Camau Bach yn gallu gwneud dewisiadau ac maent yn gwybod bod staff yn gwrando arnynt.

Roedd plant yn dewis lle roeddent am chwarae a gwelsom nad oedd rhai eisiau chwarae yn y tywod neu'r compost a'u bod yn dewis chwarae yn y tŷ bach twt yn lle. Gwelsom blentyn ifanc yn gwrthod cymryd llaeth gan un aelod o staff am ei fod yn amlwg wedi datblygu perthynas ag aelod arall o staff. Nodwyd hyn a chafodd ei drosglwyddo i'r aelod hwnnw o staff ac fe yfodd ei laeth yn hapus. Roedd y plant hŷn wedi cyfrannu at y gwaith cynllunio a gwelsom eu syniadau wedi'u cofnodi ar fap meddwl. Dewisodd plant fatiau lliw i eistedd arnynt yn ystod amser cylch; nid oedd un ohonynt am eistedd ar fat glas a derbyniodd un melyn yn hapus yn ei le. Gwelsom blant yn cael dewis o laeth neu ddŵr i frecwast.

Mae staff yn gwrando'n dda ar y plant yn y gwasanaeth hwn.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae plant wedi ymgartrefu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol gyda staff allweddol.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o blant wedi ymgartrefu ac roeddent yn chwarae'n hapus pan wnaethom gyrraedd. Roedd un plentyn eisiau aros gyda'i riant pan gyrhaeddodd ond ymatebodd i gais am goflaid gan aelod o staff ac roedd wedi ymgartrefu'n ddigon buan. Gwelsom fod plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol; ar ôl amser tost, roedd plant hŷn yn gwybod lle i fynd heb gael eu hatgoffa. Cyrhaeddodd plant ar ôl cael eu casglu o'r ysgol, gan redeg i mewn gyda'i gilydd yn llawn cyffro a chwerthin. Gwelsom fod un plentyn iau wedi datblygu perthynas glos ag aelod o staff ac roedd yn cyffroi os oedd hi'n ei adael neu'n mynd o'r golwg. Tawelodd pan glywodd ei llais ac fe barhaodd i siarad ag ef o ochr arall yr ystafell, gan roi sicrwydd iddo nad oedd hi'n bell.

Mae plant yn hyderus ac yn hapus yn y gwasanaeth hwn. Caiff eu hanghenion a'u dymuniadau eu gwerthfawrogi.

1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae plant yn chwarae'n gadarnhaol â'i gilydd ac maent yn datblygu ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Maent yn rheoli eu hymddygiad ac yn cymryd eu tro.

Gwelsom blant yn eistedd yn amyneddgar yn aros i'w tost gael ei weini. Roedd plant yn dal dwylo mewn parau wrth gerdded o'r ysgol yn ôl i'r feithrinfa ac roeddent yn gwrando ar reolau ynglŷn â chadw'n ddiogel. Gwnaethom wyllo gweithgaredd lle cymrodd plant eu tro yn amyneddgar wrth blannu berwr. Gwelsom blant iau gyda'i gilydd yn y gornel gartref, lle roedd un yn gorwedd ar y gwely bach ac roedd un arall yn curo'i gefn yn ysgafn ac yn ei dawelu er mwyn ei helpu i fynd i gysgu. Neidiodd y plentyn allan o'r gwely a dywedodd, "Gei di gysgu'n awr" a chynnig y gwely iddi.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac maent yn ystyried teimladau ei gilydd.

1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae plant yn egnïol, yn chwilfrydig, ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn dyfalbarhau wrth wneud tasgau ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Ymatebodd y plant yn gyffrous wrth eistedd i gael stori; roeddent yn amlwg yn gyfarwydd â'r hyn oedd yn mynd i ddigwydd nesaf ac yn ymateb yn unol â hynny. Gwelsom blant wedi ymgolli'n llwyr yn chwarae gyda blociau adeiladu. Roedd plant yn llawn cyffro ac yn chwerthin wrth iddynt chwilio'r man awyr agored; buont yn dringo grisiau a llithro lawr sleidiau gan chwerthin wrth redeg o gwmpas. Dywedodd grŵp o blant wrthym yn llawn cyffro am y pry copyn a'r fuwch goch gota wrth iddynt edrych ar ddetholiad o bryfaid plastig. Roedd rhai yn ansicr ynglŷn â chyffwrdd â nhw ond cafwyd gweiddi chwerthin wrth i'r staff hedfan y 'pry' o amgylch yr ystafell cyn iddo lanio ar ben rhai o'r plant ac yna ar ei phen hi ei hun. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn mwynhau paentio waliau'n defnyddio brwshys paent a dŵr. Copïodd un plentyn siâp yr oedd aelod o staff wedi ei dynnu a dywedodd, "Dwi wedi'i wneud ef!"

Mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn.

1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae plant yn hyderus ac yn datblygu ym mhob agwedd. Maent yn blant annibynnol ac yn cael eu hysgogi i ddewis eu chwarae'n rhydd yn ogystal â mwynhau gweithgareddau a arweinir gan oedolion.

Yn ystod amser cylch, roedd plant yn adnabod eu henwau eu hunain wrth hunan-gofrestru. Roeddent yn siarad yn hyderus am y tywydd ar y diwrnod hwnnw. Cymerodd pob plentyn ran yn brwsio'u dannedd a golchodd pob un ohonynt ei frws wedyn, gan ei osod yn ôl yn y bysus o dan eu henw a'u llun unigryw. Ymatebodd plant yn dda i drafodaeth am y lindysyn

a'r glöyn byw ac roeddent yn deall pa un oedd yn dod gyntaf. Cofiodd rhai plant am eu gwibdaith siopa i brynu planhigion, yr oeddent wedi dod â nhw i blannu yn yr ardd. Gwelsom y plant yn plannu moron a nionod yr oeddent wedi eu prynu o siop leol ar y diwrnod hwnnw. Bu'r plant yn helpu i roi dŵr i'r planhigion a llysiau. Gwelsom blentyn iau yn ceisio tynnu ei hun i fyny ar gadair ac yn gwthio llaw aelod o staff ymaith.

Mae plant yn datblygu'n dda trwy ddilyn ystod eang ac amrywiol o weithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddysgu a datblygu i fod yn annibynnol.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach ac yn dilyn polisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth gan mwyaf wrth hybu llesiant plant. Mae staff yn gyson wrth reoli'r rhyngweithio ac yn hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae ymron i bob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant gorfodol wedi'i ddiweddarau gan gynnwys amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd.

Gwelsom staff yn gwisgo ffedog a menig wrth baratoi brechwast i'r plant. Nid oedd pob plentyn yn golchi ei ddwylo cyn prydau bwyd. Fodd bynnag, golchodd y plant hŷn a ddaeth o'r ysgol eu dwylo. Glanhaodd staff ddwylo ac wynebau plant ar ôl amser bwyd a defnyddio hancesi gwlyb i sychu eu dwylo ac wynebau. Gwelsom staff yn ailadrodd negeseuon diogelwch pan oedd plant yn defnyddio'r sleid neu'r cyfarpar dringo. Roedd trefniadau casglu o'r ysgol yn parhau i fod yn gadarn a threfnus ac roedd plant yn cael eu cofnodi wrth iddynt ddod i mewn ac wrth adael y feithrinfa a'r ysgol. Roedd staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau'n gywir ac yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn eu cydlofnodi.

Mae staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach y rhan fwyaf o'r amser.

2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae staff yn rheoli rhyngweithio'n gyson ac yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Maent yn dangos esiampl o ymddygiad da ac yn sicrhau bod ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddathlu.

Gwelsom staff yn esbonio gam wrth gam i blant beth oeddent yn mynd i'w wneud yn ystod y sesiwn; byddai rhai yn plannu llysiâu tra oedd eraill yn chwilio am bryfaid. Gwelsom rywfaint o anghytuno rhwng plant nad oeddent am rannu a dywedodd staff wrthynt, mewn ffordd dawel yr oeddent yn ei deall, pa mor bwysig oedd rhannu gyda'i gilydd. Roedd staff yn annog plant ac yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt pan oeddent wedi ymdrechu wrth dasg: "Da iawn, mae hynny'n waith gwirioneddol dda." Ar ôl plannu llysiâu, dywedodd staff wrth y plant y byddai'n rhaid iddynt adael i'r nionyn gysgu yn awr ac fe'u hanogodd i godi llaw i ffarwelio wrth iddo gael ei gladdu yn y compost. Roedd staff yn rheoli'r sesiwn amser cinio'n dda gan fod y drefn yn sicrhau bod y plant yn dawelach ac yn hapusach ac roedd staff yn gallu cymdeithasu gyda'r plant mewn amgylchedd tawelach.

Mae staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda ac maent yn gyson wrth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae staff yn adnabod ac yn deall anghenion unigol y plant ac yn darparu amgylchedd meithringar a gofalgar sy'n ymatebol.

Gwelsom staff yn ymateb i blentyn a oedd wedi cynhyrfu wrth gyrraedd y feithrinfa, ac roeddent yn gwybod yn union pam roedd wedi cynhyrfu. Gwnaethant roi sicrwydd i'r plentyn ac roeddent yn deall ei fod wedi cynhyrfu oherwydd iddo gyrraedd yn hwyrach na'r arfer ac roedd yn teimlo bod y drefn yn anghyfarwydd ac nad oedd ei ffrindiau yn eu hystafell arferol. Dangosodd plentyn iau arwyddion o ofid ac roedd staff yn gwybod nad oedd yn teimlo ar ei orau ac roeddent yn gallu adnabod cri o boen pan oedd yn ceisio mynd i gysgu ac yn deffro'n barhaus. Roedd staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant gan fod gwybodaeth gan gynnwys anghenion diet ac alergeddau'n cael ei harddangos ar waliau ystafelloedd. Clywsom staff yn defnyddio llawer o iaith ysgogol a chwestiynau penagored wrth siarad am y gwahanol bryfaid, fel "Ble maen nhw'n byw?" Roedd cofnodion cynllunio'n cynnwys syniadau gan bob aelod o staff. Gwelsom dystiolaeth o wahanol wibdeithiau o'r feithrinfa, lle roedd plant wedi cael profiadau uniongyrchol fel siopa am adnoddau a chasglu dail ar gyfer eu tasgau.

Mae staff yn bodloni anghenion unigol plant yn effeithiol.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a sicr. Mae'r adeilad yn eang ac yn hygyrch ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae adnoddau a chyfarpar o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion plant.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae hyfforddiant iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff, sy'n sicrhau bod pob risg diangen yn cael ei nodi a'i ddileu.

Gwelsom asesiadau risg manwl ar gyfer y tu fewn i'r adeilad, y man awyr agored, ac achlysuron pan fydd plant yn cael eu cymryd allan o'r feithrinfa. Roedd staff yn gwirio pob man y tu allan cyn gadael i'r plant fynd allan i chwarae. Roedd system teledu cylch cyfyng ar waith ac roedd pob mynediad i'r feithrinfa trwy ffob gorïad a oedd ar gael i'r staff yn unig. Gwelsom fod y derbynnydd ar y ddesg yn gwirio bod rhieni/gofalwyr wedi llofnodi'n gywir i ddweud bod eu plentyn yn cyrraedd neu'n gadael. Roedd pob ymwelydd yn llofnodi cofnod ymwelwyr ac roedd gofyn iddo wisgo bathodyn ymwelydd tra oedd yn yr adeilad. Roedd profion diogelwch wedi cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyfarpar trydanol ym mis Tachwedd 2016. Roedd offer diogelwch trwy gydol y feithrinfa gan gynnwys giataiau a monitorau babi. Gwelsom staff yn dilyn trefn lanhau ar ôl cinio, lle cliriwyd bwyd a oedd wedi disgyn ar lawr a glanhwyd y byrddau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r awyrgylch dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae digonedd o le i blant gael symud o gwmpas yn rhydd dan do ac yn yr awyr agored.

Gwelsom fod arweinwyr wedi ailasesu sut roedd yr holl fannau'n cael eu defnyddio ac roedd grwpiau llai o blant yn defnyddio gwahanol ystafelloedd yn ystod prydau bwyd. Gwelsom fod y man awyr agored wedi cael ei ddatblygu ac roedd plant yn mwynhau chwarae yn y rhan ag arwyneb diogel gyda chyfarpar chwarae mawr, yn ogystal â man gyda glaswellt lle roedd llefydd i chwilota a chuddfannau gan gynnwys cegin fwd. Roedd pob plentyn yn mwynhau rhywfaint o amser yn yr awyr agored. Roedd gan y plant hŷn fannau wedi'u gosod yn unol â'r Cyfnod Sylfaen, a oedd yn cynnwys cornel ddarllen, man cyfforddus i eistedd, cornel fathemategol, man chwarae rôl, cornel ysgrifennu a man crefftau. Roedd ystafelloedd y babanod yn gyfforddus, yn lliwgar ac yn eang, gan ganiatáu digon o gyfleoedd i'r plant gropian, cerdded, chwarae a gorffwys.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer pob plentyn.

3.3 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at gyfarpar ac adnoddau sy'n addas i'w hoedran.

Gwelsom fod gan blant fynediad at fyrddau a chadeiriau o uchder addas a dewis da o deganau ac adnoddau. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi adolygu'r ystod o gyfarpar a oedd ar gael a'u bod wedi prynu teganau newydd ar gyfer y manau chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Roedd adnoddau ar gael yn rhwydd i blant ac roedd tywod a chompost mewn byrddau "twff" a photiau paent llawn yn yr îsls. Roedd dewis da o adnoddau yn y tai chwarae i hyrwyddo chwarae dychmygus ac roedd digon o lestri, padelli a theclynnau i blant eu defnyddio yn y gegin fwd. Storiwyd adnoddau o fewn cyrraedd y plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau ac offer o ansawdd da ar gael.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae'r darparwr yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff staff eu rheoli'n effeithlon ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan arweinwyr. Mae partneriaethau gyda rheini a'r gymuned yn effeithiol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried wrth gynllunio ar gyfer gwella.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae arweinwyr wedi creu tîm effeithiol o staff ac wedi creu ethos lle mae staff a phlant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Gwelsom fod holl ffeiliau'r staff a phlant yn gywir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth yn unol â'r rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith wrth hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan arweinwyr a'u bod yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd staff yn derbyn hyfforddiant sefydlu trwyadl a oedd yn cael ei gofnodi ac yn cael ei ddilyn gan sesiynau goruchwyllo i sicrhau bod unrhyw faterion yn derbyn sylw. Roedd rhai aelodau newydd o staff a oedd yn aros i gael eu goruchwyllo. Roedd arweinwyr wedi parhau i gynnal diwrnodau hyfforddiant rheolaidd pan oeddent yn cau'r gwasanaeth ar gyfer hyfforddiant penodol a chyfarfodydd staff.

Mae arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan arweinwyr system ar waith ar gyfer hunanwerthuso ac maent yn casglu adborth ar gyfer yr adolygiad nesaf.

Cwblhawyd yr adolygiad ac adroddiad ansawdd gofal diweddaraf ym mis Medi 2016. Roedd arweinwyr wedi dechrau casglu gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad nesaf ac roedd ganddynt holiaduron wedi'u cwblhau gan rieni, staff a phlant a oedd yn cynnig sylwadau cadarnhaol yn bennaf. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod wedi ymchwilio i ffyrdd o wella'r gwasanaeth ac roedd fforwm rhieni wedi cael ei sefydlu i edrych ar ffyrdd o godi arian a rhwydweithio. Roedd y tîm rheoli wedi sefydlu grŵp rhieni a babanod, a oedd yn cwrdd yn rheolaidd yn y gwasanaeth, a dywedodd arweinwyr wrthym ei fod yn boblogaidd gyda rhieni lleol.

Mae gwaith hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella wedi datblygu ac mae'n broses barhaus.

4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae prosesau recriwtio staff diogel ac amserol ar waith gan yr arweinwyr. Mae rhai aelodau o staff hirsefydlog yn y feithrinfa ac maent wedi recriwtio staff newydd yn ddiweddar.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus gyda'u swyddogaethau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan arweinwyr. Cadarnhaodd staff newydd eu bod wedi derbyn hyfforddiant sefydlu cyn dechrau yn eu swyddi a gwelsom dystiolaeth o hyn yn eu ffeiliau unigol. Roedd arweinwyr wedi cwblhau arfarniadau blynyddol gyda staff ac roedd system ar waith i sicrhau goruchwylio rheolaidd. Dywedodd staff wrthym fod mwy o gysondeb gyda staff allweddol ym mhob ystafell, a oedd yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal gan yr un aelodau o staff. Roedd y rheolwr yn ychwanegol i nifer y gofalfwr ac nid oedd y dirprwy reolwr yn cael ei gyfrif yn y gymhareb am dri diwrnod yr wythnos. Dywedodd staff fod eu presenoldeb yn sicrhau cefnogaeth a chymorth yn ôl yr angen. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau, y maent wedi gallu eu rhoi ar waith yn eu hystafelloedd.

Mae'r gwaith o reoli ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn gadarnhaol ac wedi ei drefnu'n effeithiol.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda rhieni a phlant i nodi anghenion a hoffterau unigol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ofal a datblygiad eu plentyn.

Gwnaethom ddarllen adborth gan rieni, a oedd wedi'i gasglu fel rhan o'r adolygiad ansawdd gofal, ac, ar y cyfan, roedd rhieni'n hapus gyda'r gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn gallu mynd at staff pe byddai pryderon ganddynt. Dywedodd arweinwyr wrthym fod ganddynt gydberthnasau da gyda'r ysgolion lleol a'r gymuned a'u bod yn sicrhau bod gwibdeithiau i siopau lleol yn digwydd yn rheolaidd. Roeddent wedi gwahodd pobl leol a oedd yn gysylltiedig â'r thema gyfredol i siarad â'r plant, er enghraifft yr heddlu. Roedd rhieni'n derbyn dyddiaduron a oedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ddiwrnod eu plentyn. Roedd tystiolaeth ffotograffig yn cael ei chofnodi mewn llyfr a oedd yn dilyn y plentyn drwy bob adran ac roedd y plentyn yn mynd â'r llyfr adref pan oedd yn dechrau mynd i'r ysgol. Hysbyswyd rhieni am newyddion a digwyddiadau trwy gylchlythyrau, gwefan a thudalen Facebook.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau da â rhieni, ysgolion lleol a'r gymuned.

5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol:

- dylai'r holl blant olchi eu dwylo cyn amser byrbryd neu ginio
- dylai staff lanhau matiau newid rhwng newid cewynnau
- dylai staff olchi eu dwylo ar ôl newid pob cewyn unigol a chyn dychwelyd y plant i'w hystafelloedd.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, wedi'i drefnu. Gwnaeth dau arolygwr gynnal un ymweliad dirybudd a gwnaeth un arolygwr gynnal un ymweliad lle rhoddwyd rhybudd, am gyfanswm o chwe awr a hanner.

- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn ar wahanol adegau yn ystod y diwrnod, gan ddefnyddio'r dull SOFI i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff.
- Gwnaethom siarad â nifer o blant a staff.
- Gwnaethom edrych ar ystod eang o gofnodion gan gynnwys ffeiliau plant, ffeiliau staff, cofnodion damweiniau, asesiadau risg, polisiau, hyfforddiant staff a gweithdrefnau sefydlu.
- Gwnaethom hebrwng y staff ar un daith i'r ysgol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal dydd plant Gofal dydd llawn
Unigolyn cyfrifol	Elizabeth Davies-Rollinson
Person â gofal	Debbie Benjamin
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	75
Ystod oedran y plant	Geni hyd at 12 oed
Oriau agor	8am – 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	27 Medi a 6 Hydref 2016
Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn	2 a 10 Mai 2017
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.
Gwybodaeth ychwanegol: Mae'r gwasanaeth wedi'i ariannu i ddarparu addysg i blant tair blwydd oed a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf gan Estyn yn 2013.	